



Gweinyddiaeth
Cyfiawnder




Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Cynnig ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 16 Gorffennaf 2015

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 8 Hydref 2015





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder



Gwasanaeth Llysoedd
a Thribiwnlysoedd EM

Cynnig ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr

**Ymgynghoriad a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae hefyd ar gael ar wefan
y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn <https://consult.justice.gov.uk/>**

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

- At:** Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i fwriadu ar gyfer defnyddwyr y llys, ynadon, y farnwriaeth, ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y ddarpariaeth o ran trefniadau cyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.
- Hyd:** Rhwng 16/07/2015 a 8/10/2015
- Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat gwahanol) i:** Ymgynghoriad GLITEM
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Post point 1.13
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ
- Ffôn:** 0161 240 5021
- Ffacs:** 0870 761 7768
- E-bost:** estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk
- Sut mae ymateb:** Anfonwch eich ymateb erbyn 8/10/15 i:
- Ymgynghoriad GLITEM
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Post point 1.13
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ
- Ffacs:** 0870 761 7768
- E-bost:** estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk
- Ffyrdd ychwanegol o gyflwyno eich safbwyntiau:** Os na allwch ymateb i'r papur hwn drwy e-bost neu lythyr, cysylltwch â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder drwy ddefnyddio'r manylion a ddarperir uchod, os gwelwch yn dda.
- Y papur ymateb:** Bydd ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Rhagair	2
Newid Ystadau yng nghyd-destun diwygio llysoedd a thribiwnlysoedd	4
Y Cynigion	11
Holiadur	17
Amdanoch chi	18
Manylion cysylltu/Sut i ymateb	19
Asesiad o Effaith	21
Egwyddorion ymgynghori	22

Rhagair

Ar 23 Mehefin 2015 cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ei fwriad i gydweithio â'r farnwriaeth i ddiwygio'r llysoedd a'r triwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Trwy ddiwygio, bydd modd cael mynediad cyflymach a thecach at gyfiawnder a chreu system sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn defnyddio gwasanaethau heddiw.

Rydym eisoes yn gwneud cynnydd o ran darparu gwasanaeth wedi'i foderneiddio. Mae Wi-Fi a sgriniau digidol wedi cael eu cyflwyno mewn sawl adeilad llys ac mae system rheoli achosion ddigidol ar gyfer gweinyddu achosion troseddol yn datblygu'n dda.

Mae'r cynnydd hwn yn galonogol, ond mae angen gwneud mwy. Mae llawer o bobl yn cytuno nad yw'r system bresennol yn gynaliadwy a bod gennym gyfle i greu gwasanaeth modern, effeithlon sy'n canolbwyntio fwy ar y cwsmer.

Bydd mwy o ddefnydd o dechnoleg, megis cynadledda fideo, dros y ffôn ac ar-lein yn helpu i ysgogi'r gwelliannau hyn. Gellir delio â materion trafodaethol, syml, megis talu dirwy a chael profiant, drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i wneud prosesau mor syml â chyflwyno datganiad treth. Mewn llawer o achosion syml, nid oes angen gwrandawriadau wyneb yn wyneb, a dylid cadw'r rheiny ar gyfer yr achosion mwyaf sensitif neu gymhleth.

Ni allwn ddarparu gwell mynediad at gyfiawnder oni bai ein bod yn gwneud penderfyniadau anodd i leihau cost ein hystad ac ailfuddsoddi'r arbedion. Fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth y Senedd ar 23 Mehefin, mae hyn yn golygu "y bydd rhaid i nifer fawr o lysoedd ychwanegol gau".

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi yn gweithredu 460 o ganolfannau gwrandawriadau llys a thriwlynlys ledled Cymru a Lloegr. Mae'r ystad yn costio oddeutu hanner biliwn o bunnoedd i'r trethdalwr bob blwyddyn ac, ar hyn o bryd, mae'n cael ei danddefnyddio. Y llynedd, roedd dros draean o'r llysoedd a'r triwlynlysoedd yn wag am fwy na phum deg y cant o'r amser oedd ar gael iddynt ar gyfer gwrandawriadau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno cynigion sy'n anelu at leihau capasiti dros ben drwy gau'r llysoedd a'r triwlynlysoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio neu sy'n cael eu tanddefnyddio, neu sy'n anaddas ar gyfer y gwasanaethau y mae angen i ni eu darparu ohonynt.

Mae'r adeiladau yr ymgynghorir arnynt yn cynrychioli 16% o ystafelloedd gwrandawriadau'r ystad drwyddo draw, ac ar gyfartaledd, defnyddir yr ystafelloedd hyn am draean yn unig o'r amser y maent ar gael. Mae hynny'n cyfateb i lai na 2 allan o 5 diwrnod yr wythnos.

Yn achos y mwyafrif o'r llysoedd hyn, nid ydynt yn cael eu defnyddio am o leiaf dau draean o'r amser y maent ar gael; ac yn achos un o bob tri ohonynt, nid ydynt yn cael eu defnyddio am dri chwarter o'r amser.

Mae mynd i'r llys yn rhywbeth sy'n digwydd yn anaml i'r mwyafrif o bobl. Wedi'r newidiadau hyn, bydd yn parhau i fod yn wir y bydd dros 95% o ddinasyddion yn gallu cyrraedd eu llys priodol o fewn awr mewn car. Mae hyn yn cynrychioli newid o 1 pwynt

canran yn unig ar gyfer llysoedd y Goron a llysoedd ynadon a 2 bwynt canran ar gyfer llysoedd sirol. Bydd y gyfran o bobl a fydd yn gallu cyrraedd triwlynlys o fewn awr mewn car yn aros yr un fath, sef 83%.

Er mwyn sicrhau y cynhelir mynediad at gyfiawnder, hyd yn oed mewn ardaloedd mwy gwledig, rydym wedi ymrwmo i ddarparu ffyrdd eraill i ddefnyddwyr gael mynediad at ein gwasanaethau. Gall hynny olygu defnyddio adeiladau dinesig ac adeiladau cyhoeddus eraill, megis neuaddau trefi, ar gyfer gwrandawiadau yn hytrach na defnyddio llysoedd parhaol sy'n cael eu tanddefnyddio ac sydd mewn cyflwr gwael.

Rydym yn diwygio'r gwasanaeth llysoedd a thriwlynlysoedd fel ei fod yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr yn y byd modern sydd ohoni. Wrth i ni gyflwyno technoleg ddigidol i ddarparu mynediad gwell a mwy effeithlon at gyfiawnder, bydd llai o bobl yn gorfod mynd i adeilad llys yn bersonol. Mae hyn yn golygu y bydd arnom angen llai o adeiladau, a chan fod llawer ohonynt eisoes yn cael eu tanddefnyddio ac o ansawdd gwael, mae nawr yn amser da i adolygu'r ystad.

Byddwn yn croesawu pawb sydd â diddordeb i gyflwyno eu barn ar yr ymgynghoriad.

Shailesh Vara

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Lysoedd a Chymorth Cyfreithiol

Newid Ystadau yng nghyd-destun diwygio llysoedd a thriwilysoedd

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, y llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r thriwilysoedd yng Nghymru a Lloegr¹, a'r thriwilysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n gweithredu fel partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor, Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd fanylion rhaglen diwygio'r llysoedd a thriwilysoedd. Mae'r defnydd a wneir o dechnoleg a'r egwyddor o fod yn gymesur wrth galon y rhaglen hon. Gellir delio â materion trafodaethol, syml (megis gweinyddu profiant neu bledio'n euog a thalu dirwy) drwy ddefnyddio technoleg ddigidol i wneud prosesau mor syml â chyflwyno datganiad treth incwm neu adnewyddu treth car ar-lein. Nid oes angen delio gydag achosion syml wyneb yn wyneb o reidrwydd; bydd barnwyr yn gallu cadw'r gwrandawiadau llys llawn ar gyfer yr achosion mwyaf sensitif a chymhleth. Mae'n bosib defnyddio technoleg fodern nid yn unig i wneud y system gyfiawnder yn fwy hygyrch, ond hefyd i leihau costau'r system gyfiawnder gyfan drwy beidio â bod angen cludo carcharorion i wrandawiadau mechnïaeth, neu i'r heddlu beidio â gorfod cymryd diwrnodau llawn i ffwrdd o'u gwaith blaenoriaeth uchel i eistedd mewn ystafell llys.

Cyn gweithredu'r rhaglen ddiwygio yn llawn, rydym yn gofyn am sylwadau ar gau'r llysoedd a thriwilysoedd y credwn nad ydynt yn cyd-fynd a'n syniadau o ran y ffordd orau i ddarparu cyfiawnder yn y dyfodol.

Mynediad at gyfiawnder

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn cydnabod na ddylai defnyddwyr orfod teithio'n rhy bell neu wynebu taith anodd i fynd i wrandawiadau, ond rydym hefyd yn gwybod, yn yr oes ddigidol sydd ohoni, nad oes angen bob amser i ddefnyddwyr fynd i wrandawiadau yn bersonol i gael mynediad at y system gyfiawnder. Nid yw darparu mynediad effeithiol at gyfiawnder o reidrwydd, felly, yn golygu darparu mynediad corfforol i adeilad neu fod rhaid i ni gael adeilad llys neu driwilysoedd pwrpasol ym mhob ardal leol. Mae gennym eisoes ffyrdd eraill i ddefnyddwyr gael mynediad at ein gwasanaethau, sydd wedi hen sefydlu. Dyma rai enghreifftiau o hyn: galluogi swyddogion yr heddlu i roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo; prosesau i alluogi dioddefwyr, tystion a diffynyddion i fynychu gwrandawiadau drwy gyswllt fideo; a defnyddwyr mewn rhai awdurdodaethau yn cael achosion wedi eu hwyluso neu eu hystyried drwy wrandawiadau dros y ffôn neu ar bapur, sy'n golygu nad oes angen iddynt fynychu eu hunain o gwbl. Pan fo angen bod yn bresennol mewn gwrandawriad, un opsiwn yn unig yw canolfan wrandawiadau bwrpasol. Gellid defnyddio adeiladau cyhoeddus eraill ar gyfer gwrandawiadau lle mae'r gofynion diogelwch yn isel.

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gynnis darpariaeth amgen i sicrhau y cynhelir mynediad at gyfiawnder, ac mae'r ymgynghoriadau rhanbarthol yn cynnwys cynigion pellach ar gyfer sefydlu'r darpariaethau amgen hyn. Rydym yn gwybod bod rhai o adeiladau'r cynghorau'n

¹ Mae rhai Tribiwnlysoedd sy'n rhan o GLITEM yn Lloegr wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru yng Nghymru

cael eu defnyddio ar gyfer gwrandawiadau tu allan i'r system gyfreithiol, er enghraifft apeliadau gwahardd o ysgolion a mynediad i ysgolion. Efallai y bydd hyn yn cynnig cyfle penodol i rannu offer a lleoliadau ar gyfer gwrandawiadau. Rydym yn awyddus iawn i glywed gan ymgynghoreion am ddarpariaeth amgen, drwy ddefnyddio adeiladau dinesig neu adeiladau cyhoeddus eraill os oes angen ac, os felly, pa fath o ddarpariaeth ddylai honno fod i gwrdd â'u hanghenion.

Yr ymgynghoriad

Mae hwn yn ymgynghoriad cenedlaethol ar ddarpariaeth yr ystad llysoedd a thriwlynlysoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn rheoli gweithrediad y llysoedd a'r thriwlynlysoedd drwy saith rhanbarth yng Nghymru a Lloegr, ac mae'r ymgynghoriad yn cynnwys atodiadau sy'n ymdrin â Llundain, De-ddwyrain Lloegr, De-orllewin Lloegr, Canolbarth Lloegr, Gogledd-ddwyrain Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, a Chymru.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig y dylid cau:

- 57 llys ynadon
- 19 llys sirol²
- 2 lys y goron
- 4 canolfan gwrandawiadau triwlynlys
- 9 llys cyfun

Roedd Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar wahân ym mis Mehefin 2014. Cyhoeddwyd bod Llys Ynadon y Fenni a Llys Ynadon Caerffili yn mynd i gau ar 9 Gorffennaf 2015.

Cyhoeddwyd bod Llys Sirol y Rhyl yn mynd i gau yn 2010 fel rhan o Raglen Diwygio'r Ystad Llysoedd. Pe bai'r cynnig i gau Llys Ynadon Prestatyn yn mynd yn ei flaen, byddai'r gwaith yn cael ei symud i Llys Ynadon Llandudno, a byddai adeilad Llys Ynadon Prestatyn yn cael ei gadw fel canolfan gwaith sifil, teulu a thriwlynlysoedd i ganiatáu trosglwyddo gwaith o'r Rhyl a chau'r adeilad hwnnw.

I roi trosolwg i'r defnyddwyr o bob newid arfaethedig i'r ystad, mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar ym mhle rydym yn bwriadu symud llysoedd o fewn yr un dref neu ddinas. Rhoddir gwybod i randdeiliaid lleol ynglŷn â'r newidiadau hyn pan fyddant yn digwydd. Nid ydym yn ymgynghori ar ein cynlluniau i gyfuno llysoedd. O ran cyfuno, yr hyn a olygir yw symud lleoliad llys i adeilad llys arall yn yr un ardal leol ac mae'r effaith ar ddarparu gwasanaethau yn gyfyngedig. Mae'r cynlluniau cyfuno'n ymdrin â 31 o adeiladau, yn cynnwys:

- 2 lys ynadon
- 11 llys sirol
- 2 lys y goron

² Mae'r cyfeiriadau a wneir at lysoedd ynadon, llysoedd sirol, llysoedd y goron a llysoedd cyfun yn y ddogfen hon yn golygu yr adeiladau (adeilad unigol sy'n darparu ystafelloedd gwrandawiadau ar gyfer achosion troseddol, sifil, teulu a thriwlynlys) lle cynhelir y weithgaredd hwnnw mewn lleoliad penodol. Yn fanwl gywir, mae deddfwriaeth yn nodi bod un llys y goron, un llys sirol ac un llys teulu.

- 15 canolfan gwrandawiadau tribiwnlys
- 1 llys cyfun

Mae hyn yn cynrychioli'r lleihad canlynol o ran capasiti ystafelloedd gwrandawiadau pwrpasol:

- 257 o ystafelloedd llys ynadon, sy'n cynrychioli 23% o gyfanswm yr ystafelloedd llys ynadon sydd gennym ar hyn o bryd.
- 21 o ystafelloedd llys y goron, sy'n cynrychioli 4% o gyfanswm yr ystafelloedd llys y goron sydd gennym ar hyn o bryd.
- 139 o ystafelloedd llys sirol, sy'n cynrychioli 17% o gyfanswm yr ystafelloedd llys sirol sydd gennym ar hyn o bryd.
- 63 o ystafelloedd tribiwnlys, sy'n cynrychioli 13% o gyfanswm yr ystafelloedd tribiwnlys sydd gennym ar hyn o bryd.

Yr angen i ddiwygio'r ystad

Ar hyn o bryd, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn dibynnu ar system bapur. I raddau helaeth, caiff achosion eu penderfynu drwy fod yn bresennol mewn gwrandawriad yn bersonol. Mae rhwydwaith o lysoedd a thribiwnlysoedd yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae'r ystad wedi ei ffurfio o ddarlun cymhleth o drefniadau rhydd-ddaliad, les-ddaliad a llogi achlysurol lle defnyddir 460 o adeiladau llys a thribiwnlys. Hefyd, ceir nifer o adeiladau ar gyfer gwaith gweinyddu a chefnogi. Etifeddwyd y rhain pan ffurfiwyd y sefydliad yn 2011 o ganlyniad i uno Gwasanaeth Llysoedd EM a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd. Mae'r berchnogaeth dros adeiladau llys a thribiwnlys a'r defnydd a wneir ohonynt wedi datblygu'n raddol ac yn ddi-drefn dros lawer o flynyddoedd. Mae hwn yn gyfle i gamu'n ôl ac ailystyried y trefniadau presennol, ac ad-drefnu'r ystad fel y darperir y gwerth gorau am arian i ddefnyddwyr a threthdalwyr. Mae'r ystad llysoedd a thribiwnlysoedd yn costio oddeutu £500 miliwn y flwyddyn i'r trethdalwyr.

Mae safon ein hystad llysoedd a thribiwnlysoedd presennol yn amrywio'n sylweddol. Mae'r ystad yn amrywio o adeiladau hanesyddol, rhestredig i loriau sy'n cael eu rhentu mewn blociau swyddfeydd modern. Codwyd rhai adeiladau newydd a gwblhawyd i safon uchel, ond mae llawer o'r adeiladau hyn yn anaddas i'r pwrpas oherwydd ffaeiddau yn y cynllun gwreiddiol, adfeiliadau, ôl-groniad o waith cynnal a chadw neu newidiadau yn y ffordd y mae ein llysoedd a thribiwnlysoedd yn gweithredu bellach.

Bydd y cynigion hyn yn gadael y sefydliad gydag ystad lai a chynaliadwy i gyflawni ein busnes ohono, i gynyddu effeithlonrwydd ac i wella ein gwasanaethau. Byddai cael gwared o'r ystad dros ben yn darparu cyfleoedd posib i ddatblygu lleoliadau preswyl a masnachol a fyddai'n dod â budd i gymunedau lleol.

Y defnydd a wneir o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr ystafelloedd gwrandawiadau yn ein hystad yn cael eu tanddefnyddio'n sylweddol.

Ar lefel genedlaethol, yn y flwyddyn ariannol 2014/15, roedd y lefelau defnyddio fesul awdurdodaeth fel a ganlyn:

- Llysoedd y Goron 71%

- Llysoedd sirol 53%
- Llysoedd ynadon 47%
- Ystafelloedd gwrandawiaid triwlynlys 71% [data 2013/14]

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM yn cyfrifo'r gyfradd ddefnyddio drwy asesu'r llwyth gwaith (mewn oriau) fel cyfran o gapasiti mwyaf yr ystad. Cyfrifir y capasiti mwyaf drwy luosi nifer yr ystafelloedd llys fesul awdurdodaeth gyda phum awr y dydd a 248 diwrnod gwaith mewn blwyddyn. Mae lefelau defnyddio llysoedd unigol wedi'u cynnwys yn yr atodiadau rhanbarthol i'r ymgynghoriad hwn.

O'i gymharu â'r flwyddyn ariannol 2013/14, mae cynnydd bychan wedi bod o ran y lefelau defnyddio yn Llysoedd y Goron (o 70%) a gostyngiad yn lefelau defnyddio'r llysoedd sifil (o 56%) a'r llysoedd ynadon (o 55%).

Yn gyffredinol, mae'r defnydd a wneir o'r llysoedd yn parhau yn annerbyniol o isel ac, er bod rhai mentrau wedi lleihau'r llwyth gwaith yn ein llysoedd, mae ein hystad yn gyffredinol yn cynnwys gormod o ystafelloedd llys, ac ni ellir defnyddio llawer ohonynt yn hyblyg neu maent mewn cyflwr gwael. Fel yr ydym yn defnyddio ffyrdd mwy digidol o weithio, ac yn lleihau'r angen ar ran y defnyddwyr i fynychu gwrandawiaid yn bersonol, bydd yr angen am ystafelloedd llys yn lleihau ymhellach.

Yn yr atodiadau rhanbarthol rydym wedi nodi sut y gallwn sicrhau bod safle neu safleoedd eraill yn gallu cymryd y gwaith o unrhyw safle a all gau.

Penderfynu ar ba lysoedd i'w cynnwys yn y cynnigion.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r busnes yn effeithiol a chwrdd â'n gofynion strategol yn y dyfodol, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM wedi gosod set o egwyddorion a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu'r cynnigion yn yr ymgynghoriad hwn.

Mae'r egwyddorion fel a ganlyn:

Sicrhau Mynediad at Gyfiawnder

- I sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effaith posibl cau llysoedd a thriwlynlysoedd ar ddefnyddwyr proffesiynol a defnyddwyr lleig, wrth ystyried amseroedd teithio i ddefnyddwyr, heriau mynediad mewn ardaloedd gwledig ac unrhyw weithredu lliniarol, gan gynnwys cael cyfleusterau mewn canolfannau dinesig lleol ac adeiladau eraill i sicrhau mynediad lleol, TGCh modern a rhestru mwy hyblyg pan fyddai cynnydd sylweddol mewn amseroedd teithio.
- I ystyried anghenion y defnyddwyr, yn arbennig y dioddefwyr, tystion a'r rhai sy'n fregus.
- Cefnogi gofynion asiantaethau eraill fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddluoedd a'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru.

Cyflawni Gwerth am Arian

- I leihau costau rhedeg yr ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- I wneud y mwyaf o'r arian cyfalaf a geir o'r ystad dros ben er mwyn ail-fuddsoddi yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM.

Galluogi effeithlonrwydd yn y tymor hir

- I leihau'r ddibyniaeth ar adeiladau gyda chyfleusterau gwael a symud o'r adeiladau o fewn yr ystad sy'n anodd neu'n ddrud naill ai i'w gwella neu i'w huwchraddio.
- I symud tuag at ystad gydag adeiladau mwy sy'n hwyluso rhestru busnes y llys a'r triwilysoedd yn fwy effeithlon a hyblyg, a hefyd sy'n rhoi rhagor o sicrwydd i ddefnyddwyr y llys o ran pa bryd fydd eu hachosion yn cael eu gwrando.
- I gynyddu'r gallu i ddefnyddio'r ystad mewn modd hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol, ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a'r Triwilysoedd.
- I symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiaidau un pwrpas, gan edrych am gyfleoedd i grynhoi swyddogaethau swyddfa cefn ble gallant gael eu cyflawni yn fwyaf effeithlon.
- I wella'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system yn gyfan gwbl, gan fanteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- I gynyddu'r defnydd effeithlon a wneir o'r ystad ble bynnag y bo'n bosibl heb ystyried ffiniau gweinyddol presennol.

Mae'r egwyddorion hyn yn wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn Rhaglen Diwygio'r Ystad Llysoedd (CERP) yn 2010. Roedd y Rhaglen yn weithredol o 2010 tan 2014 a chaewyd 140 o adeiladau llys o ganlyniad. Mae'r egwyddorion wedi cael eu diweddarau i alinio ag amcanion strategol diwygio ehangach y llysoedd a thriwilysoedd, anghenion cyfredol o ran gweinyddu cyfiawnder, a chyfyngiadau ariannol. Nid oedd llys y Goron a chanolfannau gwrandawiaidau triwilysoedd wedi eu cynnwys yn Rhaglen Diwygio Ystad y Llys.

Y cynnig yw trosglwyddo'r llwyth gwaith o'r safleoedd dros ben i lysoedd a thriwilysoedd presennol, neu i gynnal y gwrandawiaidau mewn adeiladau dinesig neu gyhoeddus eraill. Mae'r atodiadau rhanbarthol yn nodi'r safle arfaethedig y gallai'r gwaith drosglwyddo iddo petai'r llys neu'r ganolfan wrandawiaidau triwilysoedd hwnnw'n cau.

Er mwyn cyflawni gweddnewidiad radical o'r system cyfiawnder, rhaid i unrhyw fuddsoddiad gael ei dargedu a'i ddilyn ar draws y tair prif faes allweddol, sef TGCh, ystadau a phrosesau busnes, i greu'r effeithlonrwydd a fydd yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM i foderneiddio ei arferion presennol a mabwysiadu ffyrdd symlach o weithio. Felly, fel y prif flaenoriaeth, rydym yn mynd i'r afael â'r capasiti dros ben presennol o fewn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio'r ystad sy'n weddill yn fwy hyblyg a synhwyrol, i leihau ein costau rhedeg, canolbwyntio ein buddsoddiadau ar wella'r ystad sydd arnom ei hangen ar gyfer y dyfodol, a chynyddu llysoedd amlswyddogaethol, gan ganiatáu awdurdodaethau gwahanol y llysoedd a thriwilysoedd i rannu lleoliadau. Y bwriad yw ail-fuddsoddi arian cyfalaf a geir yn dilyn gwerthu unrhyw asedau dros ben i gyfrannu at ariannu'r rhaglen diwygio.

Effaith y cynigion hyn

Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys crynodeb o'r asesiad cychwynnol o'r effaith ar amseroedd teithio (gweler dogfennau ymgynghori rhanbarthol a'r Asesiad o Effaith). Mae'r rhain wedi eu modelu ar ardal ddalgylch y llys y cynigir y dylid ei gau, a'r amseroedd teithio gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus, i'r llys arall/ llysoedd eraill. Mae'r model yn rhoi asesiad ar gyfer pob defnyddiwr llys posibl ac yn cynnwys yr amseroedd teithio ychwanegol o ardaloedd gwledig neu faestrefol i ganol y dref. Felly, yn aml iawn bydd yn dangos amseroedd teithio hirach na'r daith uniongyrchol rhwng lleoliadau'r ddau lys.

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar effaith y cynigion ar amseroedd teithio i ddefnyddwyr unigol ac i grwpiau o ddefnyddwyr. Rydym yn awyddus i sicrhau bod y rhai hynny sydd yn byw mewn cymunedau gwledig yn parhau i gael mynediad at gyfiawnder, a byddem yn croesawu clywed gan ddefnyddwyr o'r fath gyda'u syniadau am ffyrdd y gallent, yn y dyfodol, gael gwell mynediad a mynediad haws at y system gyfiawnder. Gall hyn fod drwy ddulliau digidol, neu drwy ddefnyddio, yn achlysurol, adeiladau cyhoeddus eraill heblaw adeiladau llys neu driwilysoedd presennol.

Mae Asesiad o Effaith y cynigion ynghlwm â'r ymgynghoriad. Mae'n cynnwys asesiad o effaith y cynigion ar gydraddoldeb, gan gynnwys ar lefel rhanbarthol. Byddwn yn gweithio gyda'r Undebau Llafur Adrannol drwy gydol y cyfnod ymgynghori i ddeall yr effaith posibl ar ein staff, a fydd yn cael ei gynnwys yn y broses benderfynu. Ar yr un pryd, bydd ein staff yn cael cyfle i roi eu barn drwy'r broses ymgynghori ffurfiol. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth cydraddoldeb a chodau ymarfer.

Gwella'r Ystad

Rydym yn cydnabod bod llawer o'r cynigion hyn yn cynnwys yr angen i fuddsoddi yn rhai o'r adeiladau a fyddai'n derbyn y gwaith gan y llys neu driwilysoedd sy'n cau. Efallai bydd angen y buddsoddiad i greu mwy o le i'r cyhoedd, ein staff ac ar gyfer gwrandawliadau ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y safleoedd hynny a fydd yn darparu gwasanaeth parhaus i'r cyhoedd. Er enghraifft, drwy wella mynediad i unrhyw ddefnyddwyr sydd ag anabledd, neu wella gwaith cynnal cyffredinol a mynd i'r afael â materion cynnal a chadw sydd heb eu gwneud; a thrwy geisio gwella cynladwyedd yr ystad a gedwir. Er bod y buddsoddiad hwn yn rhan o'n cynlluniau diwygio, bydd angen asesu pob achos i sicrhau ei fod yn darparu gwerth am arian.

Ardaloedd cyfiawnder lleol a newidiadau rhestru

Crëwyd ardaloedd cyfiawnder lleol gan Ddeddf y Llysoedd (2003) ac maent yn cael eu defnyddio i benderfynu pa lys ynadon a ddylai wrando ar achos penodol. Nid ydynt yn berthnasol i unrhyw awdurdodaeth llys na triwilysoedd arall.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys unrhyw gynigion i newid ardaloedd cyfiawnder lleol. Os oes cynnig i gau llys a hwn yw'r unig lys ynadon yn yr Ardal Cyfiawnder Lleol, yna mae hyn wedi ei nodi yn yr ymgynghoriad. Bydd unrhyw newidiadau i ffiniau Ardal Cyfiawnder Lleol o ganlyniad i newid i ystad y llysoedd ynadon yn destun ymgysylltiad ar wahân â rhanddeiliaid lleol gan y Grŵp Busnes Barnwrol perthnasol³.

³ Mae'r Grŵp Busnes Barnwrol yn gorff sy'n cynnwys barnwyr, ynadon, clerod ynadon a gweinyddwyr llysoedd gyda chyfrifoldeb dros sicrhau bod busnes barnwrol y llys yn cael ei gynnal

Efallai bydd angen cynnal adolygiad o drefniadau rhestru os bydd newidiadau i ystad y llys. Bydd y Grŵp Busnes Barnwrol yn cynnal ymarfer ymgysylltu a rhanddeiliaid lleol i drafod unrhyw newid arfaethedig.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Bydd ymatebion i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad yn ein galluogi i sicrhau bod y llysoedd a thribiwnlysoedd yn parhau i fod yn yr un lle â'r llwyth gwaith; bod cymunedau yn parhau i gael mynediad at adeiladau llys lle maent angen mynychu neu drwy dulliau gwahanol, a bod achosion yn cael eu gwranddo mewn adeiladau sydd â chyfleusterau addas.

Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn pawb sydd â diddordeb mewn trefniadau cyfiawnder lleol. Bydd yr Arglwydd Ganghellor yn ystyried pob sylw a fynegwyd cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch pa lysoedd neu dribiwnlysoedd y dylid eu cau a phryd.

Cynhelir yr ymgynghoriad yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn 2012 ac mae'n dod o fewn cwrpas y Canllawiau. Dilynydd y meini prawf yr ymgynghori y gellir eu gweld yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>. Bydd yn weithredol am 12 wythnos i sicrhau ymgynghoriad effeithiol oherwydd graddfa'r newid a gynigir. Er mwyn ymateb yn gyflym i newidiadau mewn gofynion gweithredol, bydd ymgynghoriadau yn y dyfodol mewn perthynas â chynigion graddfa lai yn debygol o gael eu cynnal am gyfnod llai ac yn canolbwyntio ar ddefnyddwyr llys hysbys.

Mae'r ymgynghoriad hwn, ac Asesiad o Effaith adeg yr ymgynghoriad ar gael hefyd yn www.gov.uk/moj.

Y Cynigion

Rhestrir y llysoedd a thribiwnlysoedd y cynigiwyd y dylid eu cau isod.

Mae'r ymgynghoriad wedi ei rannu yn saith rhan, un i bob rhanbarth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yng Nghymru a Lloegr. Mae manylion y cynigion i gau wedi eu cynnwys yn yr atodiadau rhanbarthol (A-G) sy'n dod law yn llaw â'r ddogfen hon. Rydym yn croesawu sylwadau ar lysoedd a thribiwnlysoedd unigol, rhanbarthau neu ar yr ymgynghoriad yn gyffredinol. Mae holiadur wedi ei gynnwys yn y ddogfen hon ar dudalen 21 ac ym mhob atodiad rhanbarthol.

Mae'r rhestr isod yn cynnwys pob un o'r llysoedd y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw oherwydd y cynigir y dylid eu cau a bod proses gyfuno wedi'i chynllunio.

Llundain

Llys Sirol Bow

Llys Ynadon Feltham

Llys Ynadon Greenwich

Llys Sirol Hmmaersmith (Llys Sirol Gorllewin Llundain yn flaenorol)

Llys Sirol Lambeth

Canolfan Wrandawiadau Tribiwnlys Pocock Street

Llys Ynadon Richmond-upon-Thames

Llys Ynadon Tottenham

Llys Ynadon Waltham Forest

Llys Sirol Woolwich

Canolbarth Lloegr

Llys Ieuencid Birmingham

Llys Ynadon Burton-upon-Trent

Llys Ynadon a Llys Sirol Buxton

Llys Ynadon Corby

Llys Ynadon Grantham

Llys Ynadon Hinckley

Llys Sirol Kettering

Llys Ynadon Kettering

Llys Ynadon Sandwell

Llys Ynadon yr Amwythig

Llys Ynadon Skegness

Llys Ynadon Solihull

Llys Ynadon Stafford

Llys Ynadon Worksop

Gogledd Ddwyrain Lloegr

Llys Ynadon Consett

Llys Sirol a Llys Teulu Halifax

Llys Teulu a Llys Ynadon Halifax (Calderdale)

Llys Sirol a Llys Ynadon Hartlepool

Llys Sirol Morpeth

Llys Sirol, Llys Teulu a Llys Ynadon Rotherham

Llys Sirol, Llys Teulu a Llys Ynadon Scunthorpe

Llys Ynadon Wakefield

Gogledd Orllewin Lloegr

Llys Sirol Accrington

Llys Ynadon Accrington

Llys Sirol a Llys Teulu Bolton

Llys Sirol a Llys Ynadon Bury

Llys Sirol a Llys Ynadon Kendal

Llys Sirol Macclesfield

Llys Ynadon Macclesfield

Llys Sirol Oldham

Llys Ynadon Oldham

Llys Ynadon a Llys Teulu Ormskirk

Llys Ynadon Runcorn (Halton)

Llys Sirol a Llys Ynadon St Helens

Llys Sirol a Llys Ynadon Stockport

Llys Sirol Tameside

Llys Sirol Altrincham a Llys Ynadon Trafford

Llys Sirol Warrington

Llys Sirol a Llys Ynadon Gorllewin Cumbria

De Ddwyrain Lloegr

Llys Sirol, Llys Teulu a Llys Ynadon Aylesbury

Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant Basildon (Acorn House)

Llys Ynadon a Llys Teulu Bedford a Mid Beds a Llys Ynadon a Llys Teulu Bedford

Llys Ynadon a Llys Teulu Bicester

Llys Ynadon a Llys Teulu Bury St.Edmunds a Llys y Goron Bury St. Edmunds

Llys Cyfun Chichester (Llys y Goron a Llys Sirol)

Llys Ynadon Chichester

Llys Sirol a Llys Teulu Colchester

Swyddfeydd Llys Sirol Colchester

Llys Ynadon Dartford

Llys Ynadon Dover

Llys Sirol, Llys Teulu a Llys Ynadon Eastbourne

Llys Ynadon Harlow

Llys Sirol a Llys Teulu Kings Lynn

Llys Sirol, Llys Teulu a Llys Ynadon Lowestoft

Llys Ynadon a Llys Teulu Redhill, a Llys Sirol a Llys Teulu Reigate

Llys Sirol St Albans

Llys Sirol a Llys Teulu Tunbridge Wells

Llys Ynadon a Llys Teulu Watford

Llys Ynadon Gorllewin Berkshire (Newbury)

De Orllewin Lloegr

Llys y Goron Barnstaple

Llys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Caerfaddon a Llys Ynadon Gogledd Avon (Yate)

Llys Ynadon Bournemouth

Tribiwnlys Cheltenham Rivershill House

Llys Yndaon, Llys Sifil a Llys Teulu Chippenham

Llys y Goron Dorchester

Llys Ynadon Fareham

Llys Ynadon Caerloyw

Llys Ynadon Gogledd Avon (Yate) neu Lys Ynadon, Llys Sirol a Llys Teulu Caerfaddon

Llys Ynadon Stroud

Llys Ynadon Torquay

Cymru

Llysoedd Barn Aberhonddu

Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr

Canolfan Wrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant

Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)

Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau

Llys Ynadon Caergybi

Llys Sifil a Theulu Llangefni

Llys Sifil a Theulu Castell Nedd a Phort Talbot

Llys Ynadon Pontypridd

Llys Ynadon Prestatyn

Tribiwnlys Wreccsam (Rhyd Broughton)

Yn ychwanegol i'r cynigion i gau llysoedd a thriwilysoedd yn yr ymgynghoriad hwn, bydd y cyfuniadau canlynol yn digwydd:

Canolbarth Lloegr

Cyfuno Llys Sirol Chesterfield o fewn Llys Ynadon Chesterfield
(Canolfan Cyfiawnder Chesterfield)

Cyfuno Tribiwnlys Chesterfield (Llys St Mary) o fewn Llys Ynadon Chesterfield
(Canolfan Cyfiawnder Chesterfield)

Cyfuno Llys Sirol a Llys Teulu Henffordd o fewn Llys Ynadon Henffordd

Cyfuno Llys Sirol a Llys Teulu Telford o fewn Llys Ynadon Telford

Gogledd Ddwyrain Lloegr

Cyfuno Llys Sirol Doncaster o fewn Llys Ynadon Doncaster

Cyfuno Tribiwnlys Doncaster (Portland Place) o fewn Llys y Goron Doncaster

Cyfuno Tribiwnlys Durham Elvet House o fewn safleoedd eraill y triwilysoedd o fewn ystad County Durham, gan gynnwys Llys Sirol a Llys Teulu Durham.

Cyfuno Tribiwnlys East Parade Sheffield o fewn Llys Cyfun Sheffield

Cyfuno Llys Sirol Harrogate o fewn Llys Ynadon Harrogate

Cyfuno Canolfan Wrandawiadau Tribiwnlys Middlesbrough o fewn Llys Ynadon Teesside

Cyfuno Tribiwnlys Quayside House Newcastle o fewn Tribiwnlys North Shields (Kings Court)

Cyfuno Llys Wilberforce (Tribiwnlys Cyflogaeth Hull) o fewn Llys Ynadon Hull a Llys Cyfun Hull

Gogledd Orllewin Lloegr

Cyfuno Llys Ynadon Bolton o fewn Llys Cyfun Bolton

Cyfuno Llys Sirol Caerhirfryn o fewn Llys Ynadon Caerhirfryn

Cyfuno Llys Ynadon Warrington o fewn Llys Cyfun Warrington

De Ddwyrain Lloegr

Cyfuno Llys y Goron Aylesbury o fewn adeilad Llys Ynadon, Llys Sirol a Chanolfan Wrandawiadau Teulu Aylesbury.

Cyfuno Tribiwnlys Cyflogaeth Bury St Edmunds (Adeiladau'r Llywodraeth) o fewn Llys Sirol Bury St Edmunds

Cyfuno Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant Caergrawnt (Eastbrook House) – Tribiwnlys Caergrawnt o fewn Canolfan Cyfiawnder Sifil Caergrawnt a Llys Ynadon Caergrawnt.

Cyfuno Gwasanaeth Tribiwnlys Eiddo Preswyl Caergrawnt o fewn Canolfan Cyfiawnder Sifil Caergrawnt

Cyfuno Tribiwnlys Cyflogaeth Norwch (Eliot House) o fewn Llys Ynadon Norwich.

Cyfuno Llys Sirol a Llys Teulu Southend o fewn Llys y Goron a Llys Ynadon Southend

De Orllewin Lloegr

Cyfuno Llys Sirol Aldershot a Farnham o fewn Llys Ynadon Aldershot

Cyfuno Siambr Arcade (Tribiwnlys Aldershot) o fewn Llys Ynadon Aldershot

Cyfuno Plymouth St Catherine's House (Tribiwnlys Plymouth) o fewn Llys Cyfun Plymouth a Llys Ynadon Plymouth

Cyfuno Southampton Western Range and Barrack Block o fewn Llys Ynadon Southampton

Cyfuno Taunton Blackdown House (Tribiwnlys Taunton) o fewn Llys Ynadon Taunton Deane

Cyfuno The Crescent Centre (Tribiwnlys Bryste) o fewn Canolfan Cyfiawnder Sifil Bryste

Cyfuno swyddfeydd Llys Cyfun Weymouth a Dorchester o fewn Llys Ynadon Weymouth

Cyfuno Llys Sirol Yeovil o fewn Llys Ynadon South Somerset a Mendip (Yeovil)

Cymru

Cyfuno Llys Sifil a Theulu Caernarfon o fewn Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon

Cyfuno Llys y Goron Abertawe (Neuadd y Ddinas) o fewn Llys y Goron Abertawe (San Helen)

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a roddir yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion? Pa sylwadau cyffredinol yr hoffech eu gwneud ar y cynigion?

Cwestiwn 2. A fydd y cynigion ar gyfer darparu gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yn effeithio'n uniongyrchol arnoch chi? Os byddant, rhowch ragor o fanylion.

Cwestiwn 3: A oes unrhyw effeithiau penodol eraill y byddai'r cynigion yn eu cael y dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM eu hystyried wrth ddod i benderfyniad? Rhowch fanylion.

Cwestiwn 4. Mae ein hasesiad o'r effeithiau tebygol a'r dadansoddiad i gefnogi i'w gweld yn yr Aseiad o Effaith sy'n dod gyda'r ymgynghoriad hwn. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y dystiolaeth a ddefnyddiwyd neu'r casgliadau a wnaed? Darparwch unrhyw dystiolaeth ychwanegol y credwch a fyddai o gymorth.

Cwestiwn 5. A oes opsiynau eraill heblaw teithio i adeilad penodol a fyddai o fudd i rai defnyddwyr? Gallai'r rhain gynnwys defnyddio technoleg i ymgysylltu o bell neu ddefnyddio adeiladau eraill, dinesig neu gyhoeddus ar gyfer gwrandawiadau yn ôl y galw. Eglurwch eich ateb, gan roi enghreifftiau penodol a thystiolaeth o'r galw posib am y gwasanaeth, lle bo hynny'n bosib.

Cwestiwn 6: Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol sydd gennych.

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth i ni amdanoch chi

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol)	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os dymunwch i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
Y cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhwch grynodeb am y bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 8 Hydref 2015 i:

Ymgynghoriad GLITEM
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Post point 1.13
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Ffacs: 0870 761 7768

Ebost: estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch o broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn www.gov.uk/moj

Gellir gwneud cais i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall (gweler y manylion uchod).

Cyhoeddi ymateb

Bydd y papur ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ar gael ar-lein yn www.justice.gov/moj.

Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer statudol, dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ystyried hyn, byddai'n help i ni petaech yn gallu egluro pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob

amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn ymrwmo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac, yn y mwyafrif o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partion.

Asesiad o Effaith

Asesiad o Effaith cynigion sy'n debygol o effeithio ar fusnesau, elusennau, y sector gwirfoddol neu'r sector cyhoeddus – gweler y canllawiau yn:
(<https://www.gov.uk/government/publications/impact-assessment-template-for-government-policies>)

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn cael eu nodi yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

© Hawlfraint y Goron 2015
Cynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder

Cewch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd fel deunydd hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

**Gellir cael fersiynau o'r adroddiad hwn mewn
fformatau eraill drwy wneud cais i'r Weinyddiaeth
Cyfiawnder estatesconsultation@hmcts.gsi.gov.uk**